Mae NICE wedi asesu System Gadarnhau Tip (TCS) Sherlock 3CG er mwyn helpu'r GIG i ddewis a ddylid defnyddio'r cynnyrch hwn ai peidio.

Tiwb gwag a gaiff ei fewnosod drwy wythïen fawr yn y fraich, neu'n agos ati yw cathetr canolog sydd wedi'i fewnosod yn rhydwelïol, neu PICC. Caiff llawer o PICCs eu gosod drwy broses fewnosod ddall (hynny yw, heb unrhyw arweiniad mecanyddol), wedyn caiff llun pelydr-x ei dynnu o'r frest er mwyn sicrhau bod y PICC yn y lle cywir cyn iddo gael ei ddefnyddio. Gall y pelydrau-X hyn arwain at oedi cyn dechrau'r driniaeth neu'r broses fonitro.

Gan olrhain pen y PICC mewn amser real, mae TCS Sherlock 3CG yn galluogi'r unigolyn sy'n gosod y PICC i sicrhau ei fod yn y lle cywir. Mae NICE wedi dweud y gellir defnyddio TCS Sherlock 3CG yn hytrach na phroses mewnosod ddall er mwyn helpu i osod PICCs, ac yn y rhan fwyaf o achosion, mae'n osgoi'r angen i gael pelydr-x o'r frest.

Efallai y bydd timau gofal iechyd yn awyddus i ddefnyddio TCS Sherlock 3CG am ei fod ar gael am gost debyg yn gyffredinol, neu ei fod yn arbed costau o'i gymharu â'r broses fewnosod ddall, gan ddibynnu ar yr ysbyty ac amodau lleol. Mae defnyddio'r ddyfais hefyd yn gwella hyder staff pan fyddant yn gosod PICCs.

ISBN: 978-1-4731-7599-0